



YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL

Pennaeth/Head:
Mr Matthew H T Evans

029 2033 3090

ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk

www.glantaf.cymru

10 Mawrth 2023

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Twmpath Dawns – 24^{ain} Mawrth – Mae ein bws mini wedi cyrraedd Glantaf! Hoffwn ofyn yn garedig am eich cefnogaeth i gefnogi'n Twmpath Dawns ar nos Wener 24ain o Mawrth, gyda band byw, baedd rhost a bar bywiog! Bydd yr holl elw yn cael ei gyfeirio at gefnogi disgyblion yng Nglantaf, gan gynorthwyo gydag ymweliadau addysgiadol, teithiau a digwyddiadau chwaraeon allgyrsiol yn ogystal â chefnogi gwaith adrannau a sicrhau adnoddau i ddisgyblion yr ysgol. Pris rhesymol y tocynnau yw £15 y person ac maent ar gael ar hyn o bryd ar *ParentPay*. Byddem yn falch iawn o weld y Neuadd yn llawn i'r ymylon – a gofynnwn yn garedig am eich cefnogaeth, efallai trwy drefnu bwrdd o ffrindiau neu deulu i ymuno â ni a chefnogi ein holl waith da yma yng Nglantaf. Edrychwn ymlaen at fwynhau eich cwmni ar y noson! *Croeso i bawb!*



Brechiadau HPV: Bl 8 -11 - Hoffwn eich atgoffa ein bod wedi anfon manylion ynghylch y brechiadau HPV i bob plentyn yn Bl8 (brechiad 1af) a fydd yn cael eu cynnal yng Nglantaf ar 22 a 23 Mawrth, yn ogystal â chyfle i bob disgybl Bl 9-11 sydd wedi colli eu brechiad 1af ac sy'n aros am eu 2il frechiad. Mae angen i chi roi eich caniatâd ymlaen llaw ac mae'r ffurflenni hyn eisoes wedi'u hanfon atoch er mwyn gwarantu bod eich plentyn yn cael y brechlyn cywir i'w diogelu. Os na fyddwch yn llenwi'r ffurflenni hyn bydd angen i'ch plentyn fynd i glinigau eraill yn y ddinas, gan na fydd modd iddynt dderbyn y rhain yng Nglantaf heb ganiatâd ymlaen llaw. Dyddiad cau ar gyfer caniatâd: 16 Mawrth.

Opsiynau Bl8 - Yr wythnos nesaf byddwn yn lansio ein dewisiadau opsiwn Bl 8 ar gyfer cyrsiau yn Bl9. Bydd cyflwyniad ar lwyfan Teams am 6pm (cyfrwng Cymraeg) a 6.30pm (cyfrwng Saesneg) nos Lun 13eg o Fawrth yn ogystal â noson o gyflwyniadau adrannol yng Nglantaf ddydd Mawrth 14eg o Fawrth, gan ddechrau am 5.30pm tan 7pm. Bydd ein Noson Rieni Bl8 yn dilyn ddydd lau 23 Mawrth a gynhelir ar lwyfan *School Cloud*, gyda mwy o fanylion i ddilyn ar sut i wneud apwyntiadau ar gyfer y noson.

Apêl Estyn Llaw - Diolch o galon i bob disgybl a gefnogodd ein hapêl Estyn Llaw i helpu'r rhai a effeithiwyd gan y daeargryn yn Nhwrçi a Syria. Hyd yma, rydym wedi derbyn bron i £2,000 mewn rhoddion tuag at apêl DEC Cymru - diolch i bawb a gwblhaodd yr heriau a chasglu nawdd dros yr hanner tymor. Unrhyw roddion pellach i gyrraedd erbyn Mercher 15fed Mawrth os gwelwch yn dda.



Taith Pêl-Rwyd Bl 7&8 2023

Cwrs Sgïo – Zell am See, hanner tymor Chwefror, 2024 – Bl 9-12

Rydym ni wedi trefnu cyflwyniad Teams ar gyfer unrhyw ddisgyblion (Bl 9-12) sy'n dymuno ymuno â'n Cwrs Sgïo ym mis Chwefror 2024, ddydd Llun nesaf, 13eg Mawrth am 7pm (cyfrwng Cymraeg) a 7.30pm (cyfrwng Saesneg). Byddwn yn rhannu gwybodaeth am y daith, gan gynnwys manylion am sut i sicrhau lle a'n cynllun talu. Hoffwn bwysleisio bod y daith ar agor yn y lle cyntaf i ddisgyblion sydd ar hyn o bryd yn Bl 9-12, a bydd yn agor i grwpiau blwyddyn eraill os oes digon o leoedd ar gael.



Cwrs Sgïo 2023 Zell am See

Dydd Rhyngwladol Menywod

Braf dathlu a nodi Diwrnod Rhyngwladol y Merched yng Nglantaf gyda gweithdai a gweithgareddau amrywiol yn digwydd yn yr ysgol.

Digwyddiadau y tymor hwn

Hoffwn eich atgoffa o ychydig o ddigwyddiadau sydd i ddod yn ystod y tymor hwn, a bod dydd Gwener 17 Mawrth yn HMS staff ysgol ac ar gau i ddisgyblion.


10 Mawrth	Adroddiadau BI 11 llawn wedi eu cyhoeddi
13 Mawrth	Cystadleuaeth Ddadlau BI12 (Hanes) Senedd Ieuenctid Ewropeaidd
15 Mawrth	Gweithredu Diwydiannol: dim ond BI7*,8, 11 a 12/13 (*nid 7De1; 7III1;7Dy3)
16 Mawrth	Gweithredu Diwydiannol: dim ond BI 9, 10, 11 a 6ed dosbarth
17 Mawrth	Hyfforddiant Mewn Swydd Staff (ysgol ar gau i ddisgyblion)
19 – 23 Mawrth	Twrnament 7 bob ochr Parc Rosslyn
20 Mawrth	Gwasanaeth Gwaed Cenedlaethol yn ymweld â Glantaf (BI 12/13 a staff)
20 & 21 Mawrth	TGAU Celf a Dylunio: arholiad ymarferol
22 & 23 Mawrth	Brechiadau BI8 HPV
23 Mawrth	Noson Rieni BI8 ar School Cloud 3pm - 6.30pm
23 Mawrth	Dechrau Mis Ramadan – pob dymuniad da i'n disgyblion sy'n dechrau Saum
24 Mawrth	Eisteddfod Sir (Uwchradd) Canolfan yr Urdd, Bae Caerdydd.
24 Mawrth	Twmpath Dawns, Cyfeillion Glantaf– ymunwch â ni!
27-31 Mawrth	Twrnament 7 bob ochr yr Urdd, caeau Pontcanna.
28 Mawrth	Gweithdy Celf a Dylunio BI 12 yn Nantgarw
29 Mawrth	Adr Interim BI 7-13 / Adr Llawn BI 9 & 13
31 Mawrth	Diwedd Tymor y Pasg
17 Ebrill	Dechrau Tymor y Sulgwyn (wythnos 2)

I gloi,

Llongyfarchiadau gwresog i'n timau gymnasteg a'n unigolion ym Mhencampwriaethau Ysgolion Cymru ac wrth iddynt baratoi ar gyfer Pencampwriaethau Prydain yn Stoke y penwythnos hwn. Newyddion gwych hefyd fod Elffin Bryant ac Elan Hall wedi eu cynnwys yn Nhîm Pêl-droed dan 14 Ysgolion Cymru v Lloegr. Llongyfarchiadau hefyd i Mali Mai (BI 8) a'i thîm Synchron Caerdydd a enillodd y 4ydd safle yn Nhlws Dur 2023 yn Sheffield y penwythnos diwethaf. Dymuniadau gorau i Rafik a Sophie (BI 12) wrth iddynt gynrychioli Glantaf yn Rowndiau Terfynol Prydain yn y *Joutes Oratoires* sydd i'w cynnal yn yr *Institut Francais de Royaume-Uni* yn Llundain ar 15^{fed} Mawrth – *bonne chance l'equipe de Glantaf!*

Yn olaf, roeddem yn rhyfeddol o drist i glywed am y golled sydyn ac annisgwyl un o'n cyn-ddisgyblion, Rafael Jeanne yn gynharach yr wythnos hon. Roedd yn aelod bywiog, egniol a llawen o gymuned yr ysgol ac yn ddisgybl annwyl ac uchel ei barch ymysg ei gyfoedion. Roedd ei wên gynnes a'i agwedd gadarnhaol yn cael ei werthfawrogi'n eang gan ei ffrindiau a chymuned ehangach yr ysgol. Roedd yn athletwr talentog a ragorodd ar y cae rygbi, gan gefnogi aelodau ei dîm a'i ganmol gan ei hyfforddwyr. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf a chywir at ei deulu a'i ffrindiau ar draws y ddinas a chofiwn yn annwyl am aelod caredig a chynnes o deulu Glantaf.

Yn gywir,



Matthew H T Evans

Pennaeth

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf



Tim Gymnasteg Glantaf



Disgyblion Canolfan Glantaf yn cwrdd â Tara Bethan a Dafydd Iwan yn ystod dathliadau Gwyl Ddewi.



Côr Glantaf yn canu gyda Dafydd Iwan yn Neuadd Dewi Sant